**Adam Price**
Aelod Cynulliad dros Ddwyrain Caerfyddin a Dinefwr
Assembly Member for Carmarthen East and Dinefwr

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-35-17 Papur 7 / Paper 7

John Griffiths AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ein cyf: AP0051/CJH

28 Tachwedd 2017

Annwyl John,

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**

Rwy'n ysgrifennu atoch i godi pryder sydd gen i ynghylch ymyriad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus y mae eich pwyllgor chi yn bennaf yn gyfrifol am ei oruchwylio. Rwy'n hefyd yn copïo'r llythyr i Simon Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, sydd yn gyfrifol am faterion ariannol yn ymwneud â'r Ombwdsmon a'r bil arfaethedig newydd.

Fe fyddwch yn ymwybodol bod yr Ombwdsmon wedi gwneud sylwadau cyhoeddus, yn y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol, ac wedi cyflwyno ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn gwneud yr achos i'w swyddfa ef gymryd drosodd swyddogaeth cwynion Comisiynydd y Gymraeg yng nghyd-destun argymhelliad y Llywodraeth i'w diddymu. Fel aelod o blaid sydd yn gwrthwynebu'r awgrym yma dwi yn gresynu bod Ombwdsmon sydd, o ddiffiniad, i fod yn ddiduedd yn wleidyddol ac yn annibynnol o'r Llywodraeth nid yn unig yn mynegi safbwynt ond yn lobïo o blaid polisi sydd yn destun cyfredol o anghytundeb go sylfaenol.

Mae'n glir o'r dystiolaeth sydd wedi dod i law bod yna rhyw faint o gydlynu wedi bod rhwng swyddfa'r Ombwdsmon ac Adran y Gymraeg y Llywodraeth. Yn yr ateb ysgrifenedig i gwestiwn WAQ74552 wedi ei atodi fe welwch chi fod cyfarfod wedi ei gynnal rhwng swyddfa'r Ombwdsmon a phrif swyddogion Adran y Gymraeg y Llywodraeth ym mis Medi i drafod cynnig yr Ombwdsmon, ar ei gais ef, ac fe gynigiwyd adborth ynghylch y syniad gan swyddogion y Llywodraeth a oedd yn ddefnyddiol, mae'n ymddangos, wrth lunio'r papur terfynol gan yr Ombwdsmon a groesawyd fel allbwn posib y drafodaeth gan swyddogion y llywodraeth. Byddai'n ymddangos felly bod yr Ombwdsmon wedi rhoi ei hun mewn sefyllfa lle y gadawodd i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, y mae'n gyfrifol am ei goruchwylio, i ddylanwadu ar gynnwys ei ymateb i'r ymgynghoriad ac ar ei benderfyniadau ar yr achlysur hwn.

Mewn cyd-destun lle mae annibyniaeth o'r llywodraeth, mewn realiti a chanfyddiad, yn allweddol, haeriaf fod yr ymgysylltu agos yma rhwng tîm datblygu polisi'r Llywodraeth a'r Ombwdsmon yn hollol amhriodol. Fel y mae Cymdeithas yr Iaith wedi nodi yn eu llythyr nhw atoch chi, mae yna dystiolaeth yma bod yr Ombwdsmon wedi torri'r memorandwm o ddealltwriaeth rhyngddo fe â Chomisiynydd y Gymraeg a lofnodwyd ganddo ar y 7fed o Fedi 2016.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
37 Stryd y Gwynt, Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin, SA18 3DN
Adam.Price@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
01269 597 677

**National Assembly for Wales**
37 Wind Street, Ammanford,
Carmarthenshire, SA18 3DN
Adam.Price@assembly.wales
www.assembly.wales
01269 597 677

Plaid Cymru | Party of Wales

Mae'r ddogfen hynny yn nodi o dan Gymal 7.1 i: "Ni chaiff....Comisiynydd y Gymraeg....nac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru adolygu'r modd mae'r naill ai'r llall yn cyflawni eu swyddogaethau, oni fo darpariaethau statudol yn caniatáu hynny." Nid yw darpariaethau statudol yn codi yn y cyswllt hwn felly mae cyfeiriadau'r Ombwdsmon yn y cyfarfod hwn at well gost-effeithiolrwydd yr Ombwdsmon, a'r cyfeiriad at gwynion "dibwys" yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, yn glir yn torri'r cytundeb hwn.

Byddwn felly yn croesawu eich asesiad chi ac aelodau'r Pwyllgor ynghylch priodoldeb a dilysrwydd gweithredoedd yr Ombwdsmon yn yr achos hwn, gan gynnwys eich arweiniad ynghylch pa gamau mae'r Pwyllgor yn credu y dylid eu cymryd yng ngoleuni'r wybodaeth ddiweddaraf sydd wedi dod i law.

Ar fater ehangach, byddwn hefyd yn gwerthfawrogi pe baech yn cadarnhau pa weithdrefn y mae eich Pwyllgor yn ei defnyddio i oruchwylio gwaith yr Ombwdsmon, ac sy'n amlinellu'r safonau disgwyliedig o ddeiliaid y swydd. Yn ogystal, byddwn yn gwerthfawrogi eglurder ynghylch y drefn y dylai unrhyw un sydd â chwyn am weithredoedd yr Ombwdsmon ei dilyn, ac a yw'r trefniadau hynny'n hysbys?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

**Adam Price AC/AM**
**Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr / Carmarthen East & Dinefwr**

Copiau:
Simon Thomas AC – Cadeirydd Y Pwyllgor Cyllid
Eluned Morgan AC – Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Meri Huws – Comisiynydd y Gymraeg
Nick Bennett – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**WRITTEN ASSEMBLY QUESTION**
**FOR ANSWER BY**
**THE CABINET SECRETARY FOR EDUCATION**
**ON 08 NOVEMBER 2017**

**Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet gyhoeddi cofnodion unrhyw gyfarfodydd rhwng Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a/neu ei swyddogion ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf? (WAQ74552)

**Adam Price (Carmarthen East and Dinefwr):** Will the Cabinet Secretary publish the minutes of any meetings between the Minister for Lifelong Learning and Welsh Language and/or his officials and the Welsh Public Services Ombudsman during the last 12 months? (WAQ74552)W

**Eluned Morgan:** Rwy'n cael ar ddeall na wnaeth cyn Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes gyfarfod ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf. Fe wnaeth ei swyddogion gyfarfod ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ddau achlysur. Cynhaliwyd cyfarfod ar 27 Mehefin 2017 i drafod agweddau ar Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Ni chynhyrchwyd nodyn am y cyfarfod hwnnw. Mae nodyn am gyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi wedi ei atodi i'r cwestiwn hwn.

**Eluned Morgan:** I understand the previous Minister for for Lifelong Learning and Welsh Language did not meet with the Public Services Ombudsman for Wales during the last 12 months. His officials met with the Public Services Ombudsman for Wales on two occasions. A meeting was held on 27 June 2017 to discuss aspects of the Additional Learning Needs Education Tribunal (Wales) Bill. No note was produced for that meeting. A note of a meeting held on 13 September is annexed to this question.

**Annex**

**Note of Meeting with Public Services Ombudsman Wales**

**PSOW Offices, Pencoed, 13/9/2017**

PSOW – Nick Bennett and three officers

Advisory Panel – Margaret Griffiths, Jonathan Morgan, Bill Richardson, Sharon Warnes, Jan Williams, John Williams

Welsh Government – Bethan Webb, Daniel Jones

The meeting followed an invitation from PSOW to WG staff to discuss the White Paper.

Following introductions, BW outlined the *Cymraeg 2050* strategy and the policy drivers behind the White Paper. DJ provided further detail on the policy underpinning the proposed changes to the way standards made, imposed and enforced, and the proposed Commission. Members of the Panel were supportive of the clear and ambitious strategy. NB sought to understand better how complaints are currently handled, how many are received each year and the costs of the Commissioner's complaints handling procedures. PSOW dealt with around 2300 new complaints in 2016/17 (budget ca. £4.2m) whilst in 2015/16, the Commissioner dealt with 250 complaints (budget ca. £3.4m).

NB made a proposition that PSOW could provide a more cost-effective way of handling and investigating complaints about Welsh language standards. PSOW has the benefit of objectivity and independence from Government as funding comes directly from the Consolidated Fund. PSOW already handled complaints about language matters, notably in relation to community councils. He also noted the position in the Basque Country where complaints about services in Basque are dealt with by the Ombudsman.

Ombudsmen focus on putting things right and can take a flexible and rapid approach to resolving problems – this could avoid some of the lengthy investigations by the Commissioner of relatively minor matters which the White Paper highlighted. However, if necessary, PSOW also has full investigation powers. JM noted such a move would 'mainstream' standards complaints and free up resources for the Commissioner to focus on the more important task of promoting the language. Members of the panel discussed the importance of promoting the language in the context of a million Welsh speakers and reaching our to all people in Wales, and generally supported the PSOW's proposal.

DJ noted three possible objections: the White Paper set out the Government's intention to be able to extend standards to the private sector which is generally outside the PSOW's remit, that ombudsmen generally do not have enforcement powers of the kind proposed for the Commission, and that thought would need to be given to the role of the Welsh Language Tribunal which could sit uneasily alongside the PSOW.

In response, PSOW noted that Part 5 of the draft Public Services Ombudsman Bill (due to be introduced shortly) would extend his powers to private sector care home, domiciliary care and palliative care providers, and that it was not wholly unusual for ombudsmen to deal with complaints about the private sector (e.g. Financial Services Ombudsman). In relation to enforcement, NB noted he currently investigated complaints about alleged code of conduct breaches by elected members of local authorities and was able to refer serious cases to the Adjudication Panel which could take enforcement action. It might be possible to consider such a model in relation standards, with the proposed Commission having powers to impose sanctions. Panel members agreed it would not be appropriate for the Tribunal to be able to review decisions of PSOW in the way it currently reviews decisions of the Commissioner. NB agreed and noted PSOW decisions were subject to JR but the Tribunal could have a role hearing appeals about the level of sanction imposed by the Commission. DJ noted thought would also need to be given to the role of the Tribunal in relation to the imposition of standards by the Welsh Government.

Panel members discussed the merits of the proposition and agreed the PSOW should submit a consultation response setting out his proposal in more detail. BW thanked the PSOW and Panel for their time and noted the consultation was intended to stimulate open discussion and new ideas.